



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Ebrill 2019 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 April 2019 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**),
Clive Davies, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Wyn Jones, Siân Maehrlein,
Catrin Miles, Yvonne O’Neill, Trystan Phillips, Shan Williams a Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

1. Croeso’r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i’r cyfarfod. Cyfeiriodd at farwolaeth Mr Neville Williams, Aberporth, cyn-Faer y Dref 1993-94. Cytunwyd anfon gair o gydymdeimlad at ei weddw, Mrs Sandra Williams, oedd hefyd yn gyn-Faer y Dref yn 1988-89.

Ar nodyn hapusach, llongyfarchwyd Sam Everton sydd yn gweithio yn “Crwst”, a fydd yn cynrychioli’r Deyrnas Unedig yn Rwsia fel cogydd; hefyd Jack Davies, Ysgol Uwchradd Aberteifi ar ei wibdaith i’r Unol Daleithiau fel peirianydd ifanc. Dau arall sydd wedi cyflawni campau yw’r brodyr Ioan a Garan Croft, o Glwb Bocsio Aberteifi a enillodd eu cystadleuthau bocsiio yn Lithuania.

Llongyfarchiadau hefyd i’r Cyng Clive Davies a anrhydeddwyd yn Actifydd y Flwyddyn gan Plaid Cymru yn y Gynhadledd yr wythnos ddiwethaf.

The Chair’s Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone to the meeting. He referred to the passing of Mr Neville Williams, Aberporth, past Mayor of Cardigan, 1993-94. It was agreed to forward a note of condolences to his widow, Mrs Sandra Williams, who also served as Town Mayor in 1988-89. On a happier note, the Mayor congratulated the following young people: Sam Everton who is employed at “Crwst” on representing the UK in Russia as a chef; Jack Davies, Ysgol Uwchradd Aberteifi, on his trip to the USA as a young engineer; and Ioan and Garan Croft, Cardigan Boxing Club, on their success in the ring in Lithuania.

The council’s wishes were also extended to Cllr Clive Davies on being awarded the Activist of the Year award by Plaid Cymru at the party’s recent convention.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Steffan Morgan (*dyletswyddau gwaith/work commitments*), Richard Jones (*anhwylus/unwell*), Elaine Evans

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Holl faterion cynllunio / All planning matters</i> <i>Rhoddion/Grants: Gŵyl Fawr Aberteifi,</i> <i>Clwb Pêl-droed Aberteifi / Cardigan Football Club,</i> <i>Cymdeithas Aberteifi Society, Cronfa’r Maer / Mayor’s Fund</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Rhoddion/Grants: Cymdeithas Aberteifi Society,</i> <i>Cyngor Ar Bopeth / Citizens Advice Bureau</i>
Y Cyng. / Cllr Elaine Evans	<i>Rhoddion/Grants: Menter Aberteifi Cyf., Theatr Mwldan,</i> <i>Carnifal Aberteifi / Carnival, Cyngor Ar Bopeth / Citizens Advice Bureau</i>
Y Cyng. / Cllr Graham Evans	<i>Rhoddion/Grants: Dydd Sadwrn Barlys/Barley Saturday Committee,</i> <i>Gŵyl Fawr Aberteifi.</i>
Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer	<i>Rhoddion/Grants: Bro Teifi Sheltered Tenants’ Association,</i> <i>Menter Aberteifi Cyf.</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Rhoddion/Grants: Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival,</i> <i>Cymdeithas Aberteifi Society</i>

Y Cyng. / Cllr Wyn Jones	<i>Rhoddion/Grants: Theatr Mwldan</i>
Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein	<i>Rhoddion/Grants: Menter Aberteifi Cyf., Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival</i>
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	<i>Rhoddion/Grants: Gŵyl Fawr Aberteifi, Aberteifi 2010, Cymdeithas Aberteifi Society, Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 (Apêl Leol / Local Appeal)</i>
Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan	<i>Rhoddion/Grants: Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival</i>
Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill	<i>Rhoddion/Grants: Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival, 3rd Cardigan Sea Scouts</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Mawrth.

Confirmation of Minutes of 5 March Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod cofnodion cyfarfod 5 Mawrth yn gywir.

Cllr Yvonne O'Neill proposed that the 5 March council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

There were no matters arising from the minutes.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Mawrth yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary of Events for March was distributed at the meeting.

7. Cynllunio / Planning: Ni dderbyniwyd ceisiadau. No applications received.

8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
27/3/19	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier</i>	A17	D/D	£150.00 (25.00)
1/4/19	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Mawrth / March).</i> <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> <i>Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings</i> <i>(5 & 19/3/19)</i> <i>Band Lydan (Ebrill) / Broadband (April)</i>	A9 A9 A20	D/D 4699 4699	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
21/3/19	Cyfaith (Siân Jones): <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (5/2/19)</i>	A18	4700	£115.32 (19.22)
1/4/19	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mawrth / March)</i>	A5	4701	£763.03 (0.00)
4/3/19	Cyngor Sir Ceredigion: <i>Treth annomestig / non-domestic rates 1/4/19 – 31/3/20</i>	A9	4702	£631.20 (0.00)
1/3/19	Midshire: <i>Llungopiö / Photocopying</i>	A17	4703	£48.73 (8.12)
2/4/19	HMRC: <i>PAYE £572.28, Class 1 NIC £104.25 (Ionawr, Chwefror, Mawrth / January, February, March 2019)</i>	A16	4704	£572.28 (IT) + £104.25 (NIC) = £676.53 (0.00)
26/3/19	Mrs Kathleen Martin (Menter Aberteifi): <i>Cyfarfod Llifogydd / Flood awareness meeting.</i>	C11	4705	£18.00 (0.00)
19/3/19	BT: <i>Ffôn / Telephone</i>	A20	4706	£83.71 (13.95)
31/3/19	<i>Un Llais Cymru: Aelodaeth 2019-20.</i> <i>One Voice Wales: Membership 2019-20 (50%)</i>	A12	4707	£367 (0.00)
31/3/19	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mawrth / March)</i>	A19	4708	£244.20 (40.70)

Cynigiodd y Cyng. Siân Maehrlein bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.

Cllr Siân Maehrlein proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

Derbyniadau/Receipts:

6/3/19	Hysbysebion i fap y dref / Adverts for town map	£225.00	
11/2/19	Lloyds Bank: Llog / Interest	£1.91	
11/3/19	Lloyds Bank: Llog / Interest	£1.57	
13/3/19	Clwb Bowlio Aberteifi / Cardigan Bowls Club	£400.00	Rhent / Rent 2019

(b) Adroddiad Ariannol 2018-19. Financial Report 2018-19.

Dosbarthwyd yr adroddiad ariannol terfynol hyd ddiwedd y flwyddyn 2018-19, taflen cysoni'r cyfrifon am y flwyddyn 2018-19 a thaflen gyflawn y Gyllideb am 2019-20 yn y cyfarfod.

The final financial report for the year 2018-19, the monthly reconciliation of the 2018-19 financial accounts and the complete Budget tables for 2019-20 were distributed at the meeting.

Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y cyngor yn cymeradwyo'r taflenni ariannol uchod; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans. Diolchwyd i'r clerc gan y Maer am gael y cyfrifon wedi eu cysoni o fewn diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol ac am gyflwyno'r taflenni ariannol perthnasol.

Cllr Clive Davies proposed that the council approves the above financial leaflets; seconded by Cllr Graham Evans. The Mayor thanked the clerk for producing the reconciliation of the accounts within a day of the end of the financial year and for the production of the accompanying documents.

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Cafwyd cyfarfod buddiol gyda Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, ddydd Gwener, 29 Mawrth. Archwiliwyd y pedwar camera newydd sydd wedi eu sefydlu tu allan i Neuadd y Dref, Hen Ysgol y Santes Fair (Pontycleifion), Cyffordd Pendre a Theatr Mwldan, a Chyffordd Stryd Morgan a Stryd y Santes Fair. Estynnwyd gwahoddiad gan y Comisiynydd i'r cynghorwyr ymweld â Phencadlys yr heddlu yn Llangunor i archwilio'r system monitro wrth ei waith. Cytunwyd bod cais i osod camera arall yng nghyffiniau'r Castell yn cael ei ystyried gan y Comisiynydd.
- (ii) Mae'r gwaith ardderchog i ehangu'r palmant a llwybr beiciau Pontycleifion wedi dod i ben o fewn pedair wythnos yn hytrach na'r saith wythnos a ragwelwyd. Ar wahân i ychydig o broblemau gyda'r goleuadau, cwblhawyd y gwaith yn hwylus.
- (iii) Cafwyd noson ddiddorol i ddathlu pysgod Bae Ceredigion yn ddiweddar tan arweiniad y Cynghorydd Sir Peter Davies. Gweiniwyd y bwyd yn ardderchog gan fyfyrwyr y Coleg. Dathlwyd llawer o gynnyrch lleol a pharatowyd y pysgod yn ddethol gan Len a Mandy Walters. Ffilmwyd y digwyddiad gan S4C i'w ddarlledu ar raglen "Ffermio".

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Trist oedd clywed am yr anffawd tân yn Ridgeway ar 31 Mawrth; dymunwyd adferiad llwyr i Mrs Margaret Hutchinson a'i theulu. Cafwyd cymorth gwrol yn ystod yr argyfwng gan Mr Neil Baxter a Mr Jamie Lee Parker, cymdogion i'r teulu.
- (ii) Bu damwain eto ger cylchfan Ridgeway. Cytunodd y Cyng. Miles hel gwybodaeth oddi wrth adran priffyrdd y cyngor sir am eu cynlluniau i wneud y rhan yma o'r ffordd A478 yn fwy diogel.

(c) Y Cyng. Elaine Evans (in absentia):

- (i) Dymuna'r Cyng. Evans ddatgan bod y digwyddiad i ddathlu pysgod Bae Ceredigion mewn cinio yng Ngholeg Ceredigion wedi bod yn llwyddiannus dros ben.
- (ii) Mae'r cwch wedi ei symud o ardal Bro Teifi o'r diwedd. Mae problem yn parhau ar y stad gyda chŵn anystywallt yn baeddu ar y palmentydd ac yn dychryn plant yr ardal. Disgwylir i swyddog o'r cyngor sir anfon llythyr i rybuddio'r perchennog.
- (iii) Fflatiau Teifi Bach: Mae problem ddifrifol yn parhau gyda dampwrwyd yn y fflatiau. Bwriad y Cyng. Evans yw trefnu cyfarfod gyda swyddogion Tai Ceredigion Cyf.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) An interesting meeting was held with the Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner, Mr Dafydd Llywelyn, on Friday, 30 March. The four newly-installed CCTV cameras were inspected: (1) outside St Mary's Old School Hall, Pontycleifion, (2) High Street opposite the junction with Priory Street, (3) Pendre junction with Bath House, (4) Morgan Street junction

with St Mary Street. The Commissioner invited councillors to inspect the monitoring system in action at the police headquarters in Llangunnor.

It was agreed that the council requests the Commissioner to consider placing an additional camera near Cardigan Castle.

- (ii) The roadworks near the Pontycleifion roundabout has been completed within four weeks rather than the predicted seven weeks. With the exception of the occasional glitch with the traffic controlling system, the work is judged to be of excellent quality.
- (iii) An interesting evening organised by County Councillor Peter Davies was held at the Coleg Ceredigion restaurant recently to celebrate Cardigan Bay fishing. Students from the Coleg served fresh fish with their usual efficiency. The event was a celebration of local produce and fish was prepared by Len and Mandy Walters. S4C will televise the event in a future "Ffermio" programme.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles referred to the house fire incident at Ridgeway recently; Mrs Margaret Hutchinson was wished a complete recovery from her trauma. Neighbours Mr Neil Baxter and Mr Jamie Lee Parker bravely assisted the family during the crisis.
- (ii) A further road accident was experienced near the Ridgeway roundabout. Cllr Miles will pursue the county council for immediate improvements to the A478 at this junction by installing safety barriers.

(c) Cllr Elaine Evans (*in absentia*):

- (i) Cllr Evans was pleased to express that the dinner at Coleg Ceredigion to celebrate the fish of Cardigan Bay had been a resounding success.
- (ii) The boat has finally been removed from the Bro Teifi estate. A further problem has arisen with a bothersome dog fouling the pavements and frightening young children on the estate.
- (iii) Teifi Bach Flats: The continuing problem of dampness at the flats is a cause of much concern to tenants. Cllr Evans has discussed a site visit with officers of Tai Ceredigion Cyf.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
1	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Adain cau'r ffordd / Road closure – Stryd y Priordy, Stryd Fawr / Priory Street, High Street: Cardigan Churches Together – 19/4/19, 11:30-12:00</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 27 March.
2	CSC / CCC (Elin Jones) <i>Adain cau'r ffordd / Road closure – Pontycleifion, 1/4/19-5/4/19, 6:00pm-6:00am. Gwaith arwynebu / Resurfacing work</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 27 March.
3	Mr Chris Hewitt: <i>Achwyniad am y goleuadau.</i> Complaint regarding the intermittent problem with the traffic-controlling lights at the Pontycleifion roundabout.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 27 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 27 March.
4	CSC / CCC (Gareth Payne): <i>Ymateb ynglŷn â phroblemau'r colomennod / Response regarding the pigeon control issue.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 17 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 17 March.
5	Cardigan & District Soroptimist Club: <i>Gwahoddiad i'r Maer Etholedig i'r Cinio Blynyddol.</i> Invitation to the Mayor Elect to attend the Annual Dinner on 13/10/19 and to give a presentation to the Club on 27/6/19.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Cyng. Shan Williams.</i> The invitation has been forwarded to Cllr Shan Williams.
6	Mr Tim Owen: <i>Copi o lythyr anfonwyd i'r wasg.</i> Copy of letter forwarded to the press regarding the insensitive timing of county council gravediggers' completion of work at the cemetery.	<i>Cytunodd y Cyng. Miles hel rhagor o wybodaeth ac i hysbysu'r clerc cyn anfon llythyr at y cyngor sir.</i> Cllr Miles agreed to obtain further details and inform the clerk to forward a letter to the county council.
7	"Raising Awareness of Meningitis": Event at the Fisherman's Rest, 3/4/19, 7:00pm – "Phnom Penh to Llanboidy"	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board. <i>Cytunodd y Maer a nifer o gynghorwyr fynychu'r digwyddiad.</i> The Mayor and a number of councillors agreed to attend the event.
8	<i>Pwll Nofio Aberteifi: Llythyr o ddiolch am y cyfraniad.</i> Cardigan Swimming Pool: Letter of gratitude for the donation of £8,000	<i>Nodwyd.</i> Noted.

9	Central New Brunswick Welsh Society and the New Brunswick Welsh Heritage Trust: <i>Gwahoddiad i'r Maer</i> . Invitation to the Mayor to attend the bicentenary celebration of the arrival of Welsh immigrants in New Brunswick, Canada in 1819 (August 10/11).	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer Etholedig.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor Elect.
10	<i>Cymdeithas Aberteifi Society: Cais i osod poster ar ffens y Cae Chwarae.</i> Application to place a poster to promote the Albion Bicentenary on the fence of King George 5 th Playing Field.	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu gan y Pwyllgor Ymgynghorol.</i> The application has been granted by the Advisory Committee.
11	<i>Partneriaeth Canol y Dref: Diweddariad.</i> <i>Town Centre Partnership: Update.</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
12	<i>Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd.: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Caiff ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
13	<i>Ceredigion WASPI: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Caiff ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
14	<i>Theatr Byd Bychan / Small World Theatre: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Mae's cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> The application has been discussed at the March Grants Sub-committee.
15	Cardigan Classic Car Club: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Mae's cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> The application has been discussed at the March Grants Sub-committee.
16	Cardigan Youth Club (Area 43): <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Mae's cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> The application has been discussed at the March Grants Sub-committee.
17	Citizens Advice Bureau / <i>Cymorth Ar Bopeth: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Mae's cais wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> The application has been discussed at the March Grants Sub-committee.
18	Grant Thornton (<i>Archwilydd Allanol / External Auditor</i>): <i>Dogfennau archwiliad 2018-19.</i> Documents for the audit of the 2018-19 council financial accounts.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
19	<i>Adroddiad y Bachan Deche (Mawrth)</i> Handyperson's Report (March)	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.

Elin Jones: *Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer*

Gareth Payne: *Swyddog Tai ac Amdiffyn Amgylcheddol / Housing and Environmental Control Officer*

Louise Zerk: *Adain Cau Ffyrdd / Road Closures*

11. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145)

Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972)

Cynhaliwyd yr Is-bwyllgor Rhoddion ar 19 Mawrth 2019.

The Grants Sub-committee was held on 19 March 2019.

Bro Teifi Sheltered Tenants Association	£100
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi	
Cardigan Building Preservation Trust	£100
Clwb Pêl-droed Aberteifi / Cardigan Town FC	£100
Gŵyl Fawr Aberteifi 2019	£2,500
Menter Aberteifi Cyf.	£500
Aberteifi 2010	£500
Sioe Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday Show	£750
Theatr Mwldan	£2,500
Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi / Cardigan River/Food Festival	£500
Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival	£1,000
Ambiwlans Awyr Cymru i Blant	
Children's Wales Air Ambulance	£500

Gofal Mewn Galar / Cruse Bereavement Care	£250
3 rd Cardigan Sea Scouts	£500
Cymdeithas Aberteifi Society	£100
Cyngor Ar Bopeth / Citizens' Advice Bureau	£2,000
Cardigan Classic Car Club	£250
Theatr Byd Bychan / Small World Theatre	£1,000
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 – Apêl Leol	£7,500
Cronfa'r Maer / Mayor's Fund	£1,000

Cafwyd trafodaeth am yr awgrymiadau uchod. Daethpwyd i'r penderfyniad bod angen cymryd rhagor o amser yn y dyfodol i astudio'r ffurflenni cais cyn awgrymu swm.

A discussion regarding the sub-committee recommendations ensued. It was agreed that more care be taken in future to study the application forms before recommending a sum.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod y cyngor yn cymeradwyo'r awgrymiadau uchod; eiliwyd gan y Cyng Debra Griffiths.

It was proposed by Cllr Marilyn Farmer that the council approves the above recommendations; seconded by Cllr Debra Griffiths.

Cytunwyd bod y cyflwyniadau i gymryd lle yn yr Ystafell Gynhadledd nos Fawrth, 16 Ebrill am 6:00yh.

It was agreed that the Presentation Evening be held at the Pendre Conference Room on Tuesday, 16 April at 6:00pm.

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 19 Mawrth.

Confirmation of 19 March Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod cofnodion 19 Mawrth yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 19 March minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Catrin Miles.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1478, eitem Priffyrdd (a) (*Biniau sbwriel*): Mae awgrymiadau'r Cynghorwyr Clive Davies a Graham Evans am leoliadau i osod biniau sbwriel yn y dref wedi eu hanfon ymlaen at Mr Steve Williams, swyddog y cyngor sir.

Page 1478, item Highways (a) (*Litter bins*): The recommendations by Cllrs Clive Davies and Graham Evans for the location of new bins has been forwarded to Mr Steve Williams, county council officer.

Tud. 1478, eitem Priffyrdd (b) (*Baw colomennod*): Gofynnwyd i'r clercler anfon llythyr at berchennog siop wag ym Mhendre i ofyn iddo'i thacluso a'i diogelu.

Page 1478, item Highways (b) (*Pigeon faeces*): The clerk was asked to forward a letter to the owner of a derelict Pendre shop requesting him to improve and make safe the guttering.

Adroddiad y Bachan Deche: Mae angen trwsio'r ffens uchaf ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Cytunwyd anfon llythyr at y cyngor sir yn gofyn iddynt gadarnhau perchnogaeth y darn tir mewn cwestiwn.

Mae mainc newydd wedi ei gosod ar Gae Chwarae Pentop a gosodir bin sbwriel yno'n fuan.

Handyperson Report: The fence on the Greenland Meadows area of King George 5th Playing Field is in dire need of repair. It was agreed to ask the county council for confirmation regarding ownership of the land. A new bench has been positioned on Pentop Play Area and a litter bin will be in place within the week.

Partneriaeth Canol Tref: Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod map newydd yn cael ei gynllunio gan Lisa Hellier ac argreffir 15,000 ohonynt i'w dosbarthu cyn y Pasg. Mae £400 wedi ei dderbyn gan hysbysebwyrr.

Town Centre Partnership: Cllr Clive Davies stated that a new town map is in the process of being designed by Lisa Hellier and 15,000 copies will be printed before Easter. £400 has been raised by advertising.

Menter Aberteifi: Mae pryderon yno am gyflwr y lifft; rhagdybir bod angen £20,000 i'w gywiro. Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis hel gwybodaeth am beirianwyr a ddefnyddir gan y cyngor sir.

Menter Aberteifi: Concern was expressed by Cllr Marilyn Farmer regarding the escalating cost of repairs to the Guildhall lift; it is estimated it might cost £20,000. Cllr Adams-Lewis agreed to request information regarding engineers procured by the county council.

13. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei gadwyn.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) Y Cyng. / Cllr Trystan Phillips:

(i) Goleuadau'r stryd yn Stryd Wiliam.

Street lights at William Street.

Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis drafod y mater gyda Mr Simon Bray, rheolwr goleuadau strydoedd y cyngor sir.

Cllr Adams-Lewis agreed to discuss the matter with Mr Simon Bray, the county council street light manager.

(b) Y Cyng. / Cllr Clive Davies:

(i) Symud y ciosg ffôn tu allan i Neuadd y Dref: Diweddariad.

Removal of telephone kiosk outside the Guildhall: Update.

Cytunwyd bod cwmni BT yn gwaredu'r ciosg sydd yn sefyll ger drws Neuadd y Dref, sef yr un ar y dde ar ben y grisiau.

It was agreed that BT removes the kiosk next to the Guildhall main door, located on the right-hand side on the top step.

(ii) Newid hinsawdd / Climate change: Diweddariad / Update.

Cynigiodd y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod Cyngor Tref Aberteifi yn cyhoeddi bod y cynnydd mewn gollyngiadau carbon yn fgythiad andwyol i'r planed, a bod y cyngor yn mynnu bod Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu i gyflwyno mesurau llym i leihau olion carbon o fewn y sir.

Cytunodd y Cyng. Shan Williams ysgrifennu at Mr Gareth Rowlands, rheolwr projectau'r cyngor sir, ynglŷn ag argymhellion am astudiaeth dichonoldeb i ddatblygu lagŵn i fanteisio ar y llanwr ar yr afon Teifi yn Aberteifi ac i ystyried cyflwyno project archfarchnad cynnyrch lleol.

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Graham Evans that Cardigan Town Council is declaring the present threat to the planet as a climate emergency over rising carbon emissions, and requests Ceredigion County Council to urgently introduce measures to reduce the carbon footprint within the county. Cllr Shan Williams agreed to write to Mr Gareth Rowlands, Project Development Manager with the county council, regarding proposals for a feasibility study for developing a tidal lagoon in Cardigan and to consider introducing a local produce supermarket scheme.

(c) Y Clerc / Clerk:

(i) Dosbarthu'r "Rheolau Sefydlog" sydd wedi eu diwygio (Mawrth 2019).

Distribution of the revised (March 2019) "Standing Orders".

Diolchodd y Maer i'r clerch am ei waith yn paratoi'r "Rheolau Sefydlog" ar eu newydd wedd. Gofynnodd y clerch i'r aelodau waredu'r rhai gwreiddiol yn gyfrifol, ac i gadw'r llyfryn newydd yn ddiogel at eu gwasanaeth.

The Mayor thanked the clerk for producing the revised Standing Orders booklet. The clerk requested the members to dispose of the original booklet responsibly and to refer to the new edition when necessary.

(ii) Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am nad yw'r bysiau yn teithio'r ddwy ffordd ar Rodfa'r Felin. Nodwyd y cwyn.

Complaint from a member of the public that the town service bus does not travel both ways on Rhodfa'r Felin. It was noted.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.32yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.32pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date